


Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Gelligaer, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad yr arolygiad: 07 Mai 2026

Dyddiad cyhoeddi: 07 Awst 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-178-1

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym.....	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	13
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	21
4. Y camau nesaf.....	25
Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	26
Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	27
Atodiad C – Cynllun gwella	28



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Gelligaer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 07 Mai 2026.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr gofal iechyd AGIC, un adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd rheolwyr practis.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur gan gleifion a chwblhawyd un gan aelod o'r staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan bob aelod o'r staff yn y practis. Roedd amrywiaeth o wybodaeth hybu iechyd ar gael a gwelsom enghreifftiau o ofal cleifion a oedd yn dangos cydweithio cadarnhaol rhwng y practis, y cleifion a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu gwasanaeth a oedd yn ymatebol i anghenion cleifion. Roedd staff anghlinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant llywio gofal ac wedi cadarnhau y gallent geisio cyngor gan glinigwyr pe baent yn ansicr ynghylch cyfeirio neu gynnig apwyntiad. Fodd bynnag, nododd un claf y gall ceisio cael y staff i ddeall natur ei bryderon beri anawsterau.

Roedd y practis yn darparu apwyntiadau brys a rhai cyffredin. Roedd cleifion yn gallu cysylltu â'r practis i drefnu apwyntiad dros y ffôn, yn bersonol neu drwy e-bost. Roedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael a dywedwyd wrthym fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud er mwyn helpu i gyfathrebu â'r cleifion.

Roedd yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn gyfyngedig. Fodd bynnag, roedd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion yn fodlon ar hygyrchedd yr adeilad a'r seddi yn yr ardal aros, roeddent yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau y tu allan i oriau ac yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y practis. Rhoddodd un claf rai awgrymiadau i wella'r practis hefyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod deunyddiau hybu iechyd yn cael eu harddangos yn ddiogel, yn gyfredol, ac yn cynnwys gwybodaeth am gymorth iechyd meddwl GIG 111, Pwys 2.
- Cadarnhau bod systemau mynediad at apwyntiadau yn cyd-fynd â pholisïau'r practis a'r deunyddiau i gleifion.
- Gwneud opsiynau cymorth cyfathrebu yn fwy amlwg, gan gynnwys dolen sain y practis, gwasanaethau dehongli a'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn ceisio hybu ffyrdd iach o fyw drwy fabwysiadu dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif wrth ryngweithio â chleifion.
- Roedd poster i wedi'u harddangos a oedd yn hyrwyddo'r opsiwn i gael hebryngwr ar gyfer archwiliadau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y practis yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal diogel ac effeithiol gan fod y safle yn lân ar y cyfan, roedd prosesau clinigol priodol ar waith a threfniadau gweithio amlddisgyblaethol cefnogol. Roedd prosesau archwiliadwy ar waith ar gyfer presgripsiynu meddyginiaethau'n ddiogel ac roedd y staff yn gyfarwydd iawn â'r gweithdrefnau diogelu yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen cryfhau nifer o feysydd i sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyson a chadarn ar waith. Roedd y rhain yn cynnwys gwella prosesau rheoli risg, ymgorffori prosesau diogelwch tân, gwneud cofnodion y cleifion yn fwy cyson a gwella rhai agweddau arnynt. Nodwyd bod pwysau o ran llwyth gwaith a dibyniaeth ar gapasiti clinigol cyfyngedig yn peri risg i gynaliadwyedd. Byddai mynd i'r afael â'r meysydd hyn yn cefnogi camau i ddarparu gofal mewn modd mwy diogel, effeithiol a chyson.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwella trefniadau atal a rheoli heintiau, gan gynnwys diweddarau polisïau, amserlenni glanhau, a defnyddio a storio cyfarpar glanhau yn gywir.
- Nodi adnodd i fynd i'r afael ag ôl-groniad o ran crynhoi nodiadau ac adolygu codau o fewn system cofnodion cleifion electronig EMIS.
- Datblygu polisi ar gyfer Cleifion Na Wnaethant Fynychu eu Hapwyntiad a'i roi ar waith er mwyn cefnogi prosesau i ymgysylltu â chleifion ac effeithlonrwydd y gwasanaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn cynnal prosesau priodol ar gyfer darparu gofal brys a monitro cyfarpar a meddyginiaethau brys.
- Roedd yn darparu naratifau clinigol clir a chynhwysfawr ar y cyfan yng nghofnodion y cleifion.
- Roedd yn dechrau gweithredu cyfleoedd ffurfiol i ddysgu o ddigwyddiadau niweidiol difrifol a chyfarfodydd amlddisgyblaethol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Nododd y staff eu bod wedi profi cydberthnasau gwaith cadarnhaol yn y practis a bod rheolwyr y practis a'r bwrdd iechyd yn gefnogol ac yn weladwy. Pan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd y practis yn cael ei gynnal gan y bwrdd iechyd a dywedwyd wrthym mai nod y bwrdd iechyd oedd buddsoddi yn y practis fel y byddai'n barod ar gyfer unrhyw bartneriaeth newydd y cytunir arni drwy broses dendro dros y misoedd nesaf. Er gwaethaf llawer o newidiadau i'r practis dros y blynyddoedd diwethaf, cadarnhaodd y staff eu bod wedi cael eu cefnogi'n gyson i weithio o fewn eu maes ymarfer a datblygu i agweddau ehangach ar eu rolau drwy hyfforddiant perthnasol a chymorth gan gymheiriaid. Roedd dyletswyddau arwain ar gyfer swyddogaethau penodol wedi cael eu dirprwyo'n briodol ar draws tîm y practis.

Roedd hyfforddiant ac arfarniadau'r staff wedi dechrau cael eu hadnewyddu'n ddiweddar ac roedd prosesau ar gyfer sicrhau bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu cwblhau'n barhaus yn cael eu hymgorffori. Dywedwyd wrthym fod y cymysgedd sgiliau yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn y practis a bod staff locwm a staff banc yn cael eu cyflogi er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion y boblogaeth leol.

Roedd polisïau'r practis ar waith. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau cynnwys llawer o'r rhain ac ychwanegu gwybodaeth rheoli fersiynau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r staff.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu a diweddarau holl bolisïau'r practis er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol, yn gywir, ac yn cael eu cefnogi gan system rheoli fersiynau effeithiol. Cryfhau prosesau ar gyfer adolygu polisïau drwy ddefnyddio system neu amserlen strwythuredig.
- Parhau i ymgorffori prosesau cyson ar gyfer hyfforddi, arfarnu a llywodraethu'r gweithlu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yn hyrwyddo dulliau i gleifion rannu adborth a chwynion, yn cadw cofnodion cynhwysfawr o gwynion a'r ffordd yr ymdriniwyd â nhw ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd â'r cleifion a'r staff.
- Roedd systemau cyfathrebu effeithiol o fewn y tîm, gan gynnwys diweddariadau drwy e-bost ac wyneb yn wyneb.
- Roedd yn meithrin diwylliant cadarnhaol ymhlith y staff, a nododd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u trin yn deg.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Gan mai nifer bach o ymatebion a gafwyd i holiadur cleifion AGIC, dylid dehongli'r canfyddiadau'n ofalus ac ni ddylid ystyried eu bod yn cynrychioli poblogaeth ehangach cleifion y practis. Fodd bynnag, nodwyd bod barn gymysg ynghylch ansawdd cyffredinol y gwasanaeth yn y practis. Roedd pob un o'r ymatebwyr yn fodlon ar hygyrchedd yr adeilad a'r seddi yn yr ardal aros, roeddent yn gwybod sut i gysylltu â gwasanaethau y tu allan i oriau ac yn gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y practis.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Byddai sgriniau cofrestru digidol o fudd i'r practis er mwyn helpu i reoli ciwiau ac amseroedd apwyntiadau.

Dylai meddygon ac ati allu trefnu apwyntiadau pan fydd angen apwyntiadau dilynol. E.e. dywedodd meddyg teulu a welais heddiw wrthyf fod angen apwyntiad dilynol arnaf ymhen 4 wythnos, ond ni allaf drefnu apwyntiad ymlaen llaw. Mae'n rhaid i mi ffonio wythnos ymlaen llaw a gobeithio am y gorau.

Byddai blwch ar gyfer presgripsiynau rheolaidd y tu allan yn ddefnyddiol – un y gellir cael mynediad iddo pan fydd y practis ar gau. Mae'r cyfyngiadau ynghylch ffonio am bresgripsiynau rheolaidd a chanlyniadau profion yn rhwystredig iawn, gan mai dim ond ychydig oriau'r dydd y mae'r llinellau ar agor, ac nid ydynt ar agor bob dydd.

Byddai'n ddefnyddiol gallu gweld enwau'r meddygon teulu yn y practis, ar-lein ac wyneb yn wyneb."

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod amrywiaeth o ddeunyddiau hybu iechyd a gwybodaeth am wasanaethau cymorth ar gael i'r cleifion. Roedd y rhain yn cynnwys gwybodaeth am symptomau a chyflyrau penodol, rôl y gwasanaethau gofal brys a gofal sylfaenol, ap ar gyfer olrhain unedau alcohol a rhoi'r gorau i smygu a chyfeirio gofalwyr ar wasanaethau cymorth. Roedd gwybodaeth am safle'r practis ar gael mewn posteri neu daflenni i fynd â nhw gyda chi. Fodd bynnag, gan nad oedd y taflenni'n cael eu cadw mewn rheseli, nodwyd bod y rhain yn cael eu taro i'r llawr yn hawdd yn ystod y dydd, a oedd yn peri perygl llithro. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth a oedd yn cael ei harddangos yn hen ac nid oedd codau QR a oedd wedi'u harddangos ar hysbysfwrdd hybu iechyd mawr yn cysylltu â'r

wybodaeth a fwriadwyd. Nid oedd gwybodaeth am wasanaeth cymorth iechyd meddwl GIG 111, pwysu 2 ar gael chwaith.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod system addas yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer arddangos taflenni gwybodaeth neu wneud yn siŵr bod taflenni'n aros mewn pentwr diogel**
- **Bod y wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn gyfredol**
- **Bod gwybodaeth am wasanaeth cymorth iechyd meddwl GIG 111, pwysu 2 ar gael i gleifion.**

Roedd hunanasesiad diweddar gan y practis yn dangos bod y practis yn ceisio hybu ffyrdd iach o fyw drwy ddefnyddio'r dull Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif wrth ryngweithio â chleifion. Roedd y practis yn gweithio o fewn clwstwr ac yn gweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd. Roedd ffisiotherapi, cymorth gan ymarferwyr gofal iechyd seicolegol, cysylltwyr llesiant a chlinigau brechu'r bwrdd iechyd yn cael eu cynnig ar safle'r practis. Roedd gweithdrefnau atgyfeirio neu gyfeirio yn galluogi cleifion i fanteisio ar ystod o wasanaethau gofal cymunedol a gofal eilaidd eraill yn ôl eu hanghenion. Dywedwyd wrthym fod darpariaeth amlasiantaethol gref ar gyfer eiddilwch a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi cleifion i aros yn eu cartrefi eu hunain ac osgoi derbyniadau i'r ysbyty.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom gleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan yr holl staff a bod mesurau ar waith i ddiogelu cyfrinachedd cleifion yn y dderbynfya ac yn yr ystafelloedd ymgynghori.

Roedd poster i wedi'u harddangos a oedd yn hyrwyddo'r opsiwn i gael hebryngwr ar gyfer archwiliadau. Fodd bynnag, gwnaethom drafod y dylai'r practis symud y rhain fel eu bod yn fwy amlwg i gleifion. Dywedwyd wrthym mai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol fyddai'n ymgymryd â rôl yr hebryngwr i'r graddau y bo hynny'n bosibl. Roedd polisi hebryngwyr yn rhoi gwybodaeth i'r staff anghlinigol ynglŷn â disgwyliadau'r rôl. Fodd bynnag, nid oedd y staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol i hebryngwyr.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl staff sy'n gweithredu fel hebryngwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Amserol

Gofal amserol

Dywedwyd wrthym fod y staff gweinyddol a chlinigol yn cydweithio i gynnig y gofal gofynnol i'r cleifion. Roedd staff anghlinigol wedi ymgymryd â hyfforddiant llywio gofal ac wedi cadarnhau y gallent geisio cyngor gan glinigwyr pe baent yn ansicr ynghylch cyfeirio neu gynnig apwyntiad. Fodd bynnag, nododd un claf y gall ceisio cael y staff i

ddeall natur ei bryderon beri anawsterau. Roedd angen adolygu'r polisi rheoli apwyntiadau er mwyn sicrhau bod gwybodaeth ysgrifenedig fanwl ar gael i gefnogi'r staff anghlinigol yn eu rôl llywio gofal a darparu opsiynau addas o ran llwybr na fyddent yn oedi gofal cleifion, yn enwedig mewn perthynas â chyflyrau lle mae angen sylw meddygol brys.

Dylai'r practis adolygu'r wybodaeth ysgrifenedig sy'n sail i lywio gofal er mwyn sicrhau ei bod yn darparu cyfeiriad clir i staff anghlinigol ac yn darparu opsiynau addas o ran llwybr na fyddant yn oedi gofal cleifion.

Roedd cleifion yn gallu cysylltu â'r practis i drefnu apwyntiad dros y ffôn, yn bersonol neu drwy e-bost. Roedd cleifion a oedd yn cysylltu dros y ffôn yn cael gwybod bod galwadau'n cael eu recordio. Roedd poster mynediad at ofal hefyd yn rhoi gwybod i gleifion y gallent drefnu apwyntiadau a rheoli presgripsiynau drwy ap GIG Cymru. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ymwybodol bod y practis yn cynnig y dull hwn o drefnu apwyntiadau.

Dylai'r practis gadarnhau ei ddulliau ar gyfer trefnu apwyntiadau a sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â'r polisiâu mynediad ac unrhyw ddeunyddiau i gleifion.

Dywedodd y staff wrthym fod y rhan fwyaf o apwyntiadau yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn y practis. Gallai cleifion ofyn am apwyntiad dros y ffôn pe bai'n well ganddynt a byddai hyn yn cael ei ddarparu os byddai'r swyddog llywio gofal neu'r clinigydd yn cytuno y byddai ymgynghoriad dros y ffôn yn addas ar gyfer anghenion y claf.

Roedd y practis yn darparu apwyntiadau brys a rhai cyffredin. Gwelsom enghreifftiau o ofal cleifion a oedd yn dangos cydweithio cadarnhaol rhwng y practis, y cleifion a gweithwyr proffesiynol eraill i ddarparu gwasanaeth a oedd yn ymatebol i anghenion cleifion. Os na allai'r practis ddarparu apwyntiad ar yr un diwrnod ar gyfer angen brys a nodwyd, byddai cleifion yn cael eu cyfeirio at ganolfan gofal sylfaenol frys neu wasanaeth 111 y GIG, gan gynnwys gwasanaeth 111, Pwyso 2 ar gyfer cymorth iechyd meddwl.

Mynegwyd pryder gan y practis na fyddai atgyfeiriadau brys am ofal iechyd meddwl eilaidd a drafodwyd gan y meddygon teulu â'r tîm perthnasol dros y ffôn yn cael eu derbyn bob amser. Byddai cleifion a oedd yn aros am asesiadau iechyd meddwl eilaidd yn cael eu hatgyfeirio at yr ymarferydd gofal iechyd seicolegol neu wasanaethau iechyd cymunedol eraill i gefnogi prosesau rheoli risg. Byddai'r meddygon teulu yn cysylltu â chleifion a ryddhawyd o wasanaethau gofal eilaidd pe bai angen.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Dywedwyd wrthym fod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud er mwyn helpu i gyfathrebu â'r cleifion. Roedd taflen wybodaeth i gleifion ar gael a gellid argraffu

gwybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd yn ystod ymgynghoriadau neu ei hanfon at gleifion drwy e-bost pe bai angen. Dywedodd y meddygon teulu wrthym hefyd y byddent yn defnyddio modelau a diagramau i helpu i esbonio cyflyrau meddygol ac opsiynau triniaeth i gleifion.

Roedd dolen sain ar gael a gellid cael gafael ar Language Line a dehonglwyr iaith Arwyddion Prydain ar gyfer ymgynghoriadau cleifion. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw wybodaeth wedi'i harddangos i sicrhau bod y cleifion yn ymwybodol o'r opsiynau hyn. Tystiolaeth gyfyngedig iawn a welsom o'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg hefyd.

Dylai'r practis sicrhau bod cleifion yn cael eu hysbysu'n llawn ynghylch addasiadau rhesymol ar gyfer cyfathrebu sydd ar gael yn y practis a'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Hawliau a chydraddoldeb

Gwelsom fod polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar waith i helpu'r staff i ystyried nodweddion gwarchodedig wrth weithio gyda chleifion ac o fewn y tîm. Roedd y polisi cydsyniad hefyd yn darparu arweiniad penodol yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) mewn perthynas â chefnogi cleifion nad oeddent yn gallu gwneud penderfyniadau ynghylch eu gofal iechyd.

Roedd amgylchedd y practis yn hygyrch i gleifion ag amrywiaeth o anghenion. Gallai'r cleifion ddefnyddio'r maes parcio ar y safle ac roedd cadeiriau olwyn ar gael i'r cleifion eu defnyddio pe bai angen pan oeddent ar safle'r practis. Roedd drws awtomatig er mwyn dod i mewn i'r adeilad o'r tu allan ac roedd yr holl loriau a'r trothwyon y tu mewn yn wastad ac yn ddiogel. Roedd toiled hygyrch a chyfleusterau bwydo ar y fron a newid cewynnau ar wahân ar gael i gleifion yr oedd angen y rhain arnynt. Roedd soffas bariatrig ar gael mewn rhai ystafelloedd ymgynghori hefyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Gwelsom fod safle'r practis yn lân ac mewn cyflwr da ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd rhai bagiau tywod ger y drws ffrynt a allai beri perygl baglu i gleifion a oedd yn mynd i mewn i'r practis.

Dylai'r practis sicrhau bod pob rhan o'r practis yn cael ei chadw'n daclus, heb unrhyw annibendod a allai beri perygl llithro, baglu neu berygl arall.

Gwelsom fod arwyddion ar waith i roi gwybod i gleifion, staff neu unigolion eraill a oedd yn defnyddio'r practis am unrhyw beryglon neu fesurau rheoli. Dywedwyd wrthym fel rhagofal yn dilyn prawf legionella diweddar, na ddylid yfed dŵr tap y practis. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw arwyddion yn tynnu sylw at hyn. Nid oedd rhai cardiaid ar gyfer gweithredu pe bai tân wedi'u cwblhau i nodi'r man cyfarfod pe bai angen gwagio'r adeilad. Roedd arwyddion yn yr ystafelloedd clinigol yn dangos lleoliad y diffibriliwr. Fodd bynnag, roedd y lleoliad ar yr arwyddion yn anghyson ac nid oedd yn cynnig eglurder i helpu staff dros dro neu ymwelwyr eraill â'r adeilad i wybod yn hawdd ble roedd y diffibriliwr yn cael ei gadw. Roedd angen rhoi arwyddion a oedd yn nodi lleoliad y diffibriliwr a'r silindrau ocsigen ar ddrws yr ystafell lle roedd yr eitemau hyn yn cael eu cadw hefyd.

Dylai'r practis adolygu'r holl arwyddion y bwriedir iddynt godi ymwybyddiaeth o unrhyw beryglon neu fesurau rheoli yn y practis er mwyn sicrhau bod y rhain wedi'u lleoli'n briodol ac yn darparu gwybodaeth glir a chyson.

Roedd y practis wedi dechrau cwblhau asesiadau risg tân misol yn ddiweddar. Nodwyd bod y dyddiad ar gyfer gwasanaethu a chynnal a chadw diffoddwyr tân wedi mynd heibio. Roedd negeseuon e-bost ar gael i ddangos bod y practis wedi bod mewn cysylltiad â chontractwr perthnasol i sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu cwblhau cyn gynted â phosibl.

Dylai'r practis, ar y cyd â'r bwrdd iechyd, barhau i sicrhau bod unrhyw asesiadau risg tân a mesurau diogelwch tân yn parhau i gael eu hymgorffori mewn modd amserol, yn ôl eu lefel o risg.

Roedd Proses Parhad Busnes ar waith. Fodd bynnag, roedd angen adolygu'r broses hon er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol i sefyllfa bresennol y practis lle nad oedd unrhyw bartneriaid practis ar waith.

Dylai'r practis adolygu ei Gynllun Parhad Busnes i sicrhau ei fod yn berthnasol i sefyllfa bresennol y practis.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am dderbyn hysbysiadau ynghylch diogelwch cleifion a'u trosglwyddo i'r aelodau perthnasol o dîm y practis. Pan gynhaliwyd yr arolygiad,

byddai cymorth i reolwr y practis gan bractis arall yn sicrhau y byddai tîm y practis yn cael gwybod am unrhyw hysbysiadau brys ynghylch diogelwch cleifion pe bai rheolwr y practis yn absennol o'r gweithle. Fodd bynnag, gan nad oedd bwriad i'r cymorth anffurfiol hwn fod yn drefniant hirdymor, dylid nodi dirprwy amgen ar gyfer y practis a fydd yn derbyn ac yn dosbarthu gwybodaeth am ddiogelwch cleifion.

Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau cyflenwi hirdymor yn cael eu nodi i sicrhau bod gwybodaeth yn parhau i gael ei derbyn a'i dosbarthu yn ôl yr angen yn absenoldeb rheolwr y practis.

Roedd templed ar waith i gefnogi trafodaethau am Ddadansoddiadau o Ddigwyddiadau o Bwys rhwng aelodau perthnasol o dîm y practis. Roedd yr hyn a ddysgwyd o Ddadansoddiadau o Ddigwyddiadau o Bwys yn cael ei rannu drwy e-bost wedyn at ddibenion cyfeirio yn y dyfodol. Ar adeg yr arolygiad, roedd agendâu safonol ar gyfer cyfarfodydd am Ddadansoddiadau o Ddigwyddiadau o Bwys, diogelu, gofal lliniarol a llywodraethu gwybodaeth wedi'u creu'n ddiweddar ac roedd amserlen o gyfarfodydd rheolaidd yn cael ei sefydlu.

Roedd baneri digidol o fewn cofnodion cleifion i dynnu sylw at unrhyw risgiau a nodwyd mewn perthynas â'r claf unigol. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon neu risgiau diogelu i ymarferwyr wrth ymweld â'r claf gartref. Dywedwyd wrthym lle roedd rhybuddion diogelwch i staff, na fyddai ymweliadau cartref yn cael eu cwblhau gan aelodau unigol o'r tîm ar eu pen eu hunain. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg ffurfiol er mwyn helpu i nodi risgiau na chynllunio ymweliadau ac nid oedd ymarferwyr yn ymwybodol o bolisi'r practis ynglŷn ag ymweliadau cartref.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi ynglŷn ag ymweliadau cartref ac ymgorffori ei ddefnydd i sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi i gynllunio a darparu gofal cleifion yn ddiogel yn y gymuned.

Dywedodd ymarferwyr wrthym am achosion pan oedd cyflwr claf yn golygu bod angen atgyfeirio'r unigolyn am asesiad gofal eilaidd neu pan oedd y claf wedi dirywio wrth i dîm y practis roi gofal iddo. Roedd prosesau addas ar waith i sicrhau y byddai unrhyw gleifion yn cael eu hasesu'n glinigol ac yn briodol wrth aros am gludiant brys. Dywedodd staff y practis wrthym eu bod wedi uwchgyfeirio oedi sylweddol am gludiant brys i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Dylid defnyddio Datix pan fydd y practis yn penderfynu bod digwyddiad neu gyfle i ddysgu wedi digwydd hefyd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod cyfleusterau hylendid dwylo addas ar gael ym mhob rhan o'r practis i'r staff a'r cleifion eu defnyddio. Roedd modd defnyddio ystafell ar wahân i ffwrdd o'r brif ardal aros hefyd ar gyfer cleifion a fyddai'n dod i'r practis ac yr amheuwyd bod clefydau trosglwyddadwy ganddynt er mwyn atal heintiau rhag lledaenu. Roedd modd sychu'r holl lorïau, gosodiadau ac arwynebau yn yr ardaloedd clinigol. Nododd y rhan fwyaf o'r

bobl a ymatebodd i holiadur AGIC i gleifion eu bod yn credu bod safle'r practis yn lân.

Roedd polisi dihalogi addas ar waith. Roedd arweinydd atal a rheoli heintiau newydd gael ei benodi a'i hyfforddi i rannu gwybodaeth ynghylch arferion atal a rheoli heintiau diogelu â'r tîm cyfan. Fodd bynnag, roedd arweinydd atal a rheoli heintiau gwahanol wedi'i nodi yn y polisi atal a rheoli heintiau. Nid oedd y polisi atal a rheoli heintiau yn cynnwys digon o fanylion i helpu'r staff i roi gofynion atal a rheoli heintiau ar waith chwaith. Roedd canllawiau ynghylch glanhau neu amnewid llenni mewn ardaloedd clinigol ar goll.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi Atal a Rheoli Heintiau i sicrhau ei fod yn darparu canllawiau clir i gefnogi'r staff i roi gofynion atal a rheoli heintiau ar waith ac yn nodi'n gywir pwy yw'r arweinydd atal a rheoli heintiau.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau ar gyfer cael gwared ar offer miniog yn ddiogel a pholisïau mewn perthynas â rheoli digwyddiadau sy'n ymwneud ag offer miniog a feirysau a gludir yn y gwaed. Nodwyd bod blychau offer miniog wedi'u dyddio a'u gosod yn addas mewn ystafelloedd clinigol. Roedd polisi ar gyfer colli offer miniog ar waith ac roedd cardiau gweithredu mewn perthynas ag anafiadau a achosir gan nodwydd wedi'u harddangos yn yr ystafelloedd clinigol. Roedd cofrestr Hepatitis B o staff clinigol ar gael i ni ei gweld ynghyd â thystiolaeth o imiwnedd i rai ymarferwyr. Fodd bynnag, roedd y polisi ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed i fod i gael ei adolygu.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi ar feirysau a gludir yn y gwaed i sicrhau ei fod yn gyfredol a'i fod yn parhau i ddarparu arweiniad perthnasol.

Roedd gwastraff clinigol a oedd yn aros i gael ei gasglu yn cael ei gadw'n ddiogel ac ar wahân ac roedd prosesau ar waith i ddangos beth oedd yn cael ei waredu o'r practis. Roedd archwiliad rheoli gwastraff wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar gan contractwr allanol. Erbyn i ni gynnal ein harolygiad, roedd y practis wedi ymdrin â llawer o'r camau gweithredu a nodwyd.

Roedd y practis yn cyflogi glanhawr preifat i sicrhau bod yr adeilad yn barod i gleifion ei ddefnyddio bob dydd. Roedd amserlenni glanhau ar gael ym mhob ystafell. Fodd bynnag, gwelsom mai dim ond mewn toiledau roedd y rhain wedi cael eu cwblhau ac nid mewn mannau eraill. Ni welwyd bod cwblhau cofnodion glanhau wedi'i nodi yn nisgrifiad swydd glanhawr y practis.

Dylai'r practis wneud y canlynol:

- **adolygu disgrifiad swydd glanhawr y practis i sicrhau ei fod yn cwmpasu pob agwedd ddisgwyliedig ar y rôl**
- **sicrhau bod amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau i gadarnhau pa waith glanhau a wnaed ym mhob ardal.**

Roedd nwyddau glanhau yn cael eu cadw mewn cwpwrdd addas dan glo ac roedd taflenni data Rheoli Sylweddau Peryglus i lechyd ar gael i'w hadolygu. Fodd bynnag,

gwnaethom nodi nad oedd pennau mopiau melyn ar gael fel sy'n ofynnol er mwyn glanhau ardaloedd clinigol. Roedd pennau mopiau glas a choch ar gyfer glanhau cyfleusterau cyffredinol a chyfleusterau hylendid, yn y drefn honno, wedi'u hafliwio hefyd ac roedd angen eu newid am rai newydd. Roedd y mopiau yn cael eu cadw â'u pennau i fyny. Fodd bynnag, roedd y bwcedi mop yn cael eu pentyrru a allai annog bacteria i dyfu a bioffilm i ffurfio yn y bwcedi pe bai unrhyw ddŵr ar ôl ynddynt.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **Bod mopiau penodol ar gael i'w defnyddio mewn rhannau gwahanol o'r practis yn unol â'r canllawiau perthnasol ar atal a rheoli heintiau er mwyn atal croes-halogi**
- **Bod pennau mopiau yn cael eu cynnal a'u cadw'n addas a bod rhai newydd yn cael eu darparu pan na fyddant yn addas at y diben mwyach**
- **Bod bwcedi mop yn cael eu storio ar wahân ac nad ydynt yn cael eu pentyrru, a'u bod yn cael eu cadw oddi ar y llawr a/neu ben i waered pan na fyddant yn cael eu defnyddio.**

Roedd hidlyddion wedi'u gosod ar dapiau i fynd i'r afael â'r halogiad legionella a ganfuwyd yn y dŵr ac roedd prosesau fflysio dyddiol yn cael eu cwblhau a'u dogfennu hefyd. Roedd y gwaith o gynnal a chadw cyfleusterau yn cael ei gefnogi gan y bwrdd iechyd ar hyn o bryd er mwyn cefnogi iechyd a diogelwch ac addasrwydd y safle cyn dechrau unrhyw drefniant partneriaeth newydd.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd prosesau archwiliadwy ar waith ar gyfer presgripsiynu meddyginiaethau'n ddiogel. Gallai'r cleifion ofyn am bresgripsiynau rheolaidd drwy lwyfannau electronig neu ffurflenni papur a gyflwynwyd i'r practis neu i fferyllfa gymunedol. Fodd bynnag, roedd arwyddion a arddangoswyd yn y practis i roi gwybod i gleifion sut roedd presgripsiynau rheolaidd yn cael eu prosesu a'u darparu yn cynnwys gwybodaeth anghyson ynghylch y prosesau a'r amserlenni hyn.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl wybodaeth a ddarperir i gleifion ynghylch y prosesau a'r amserlenni ar gyfer gofyn am bresgripsiynau rheolaidd a'u derbyn yn gyson.

Roedd clerc presgripsiynau a oedd wedi cwblhau hyfforddiant addas yn cael ei gyflogi i sicrhau bod y cleifion yn cael ymateb amserol i geisiadau am bresgripsiynau rheolaidd. Roedd trefniadau cydweithio agos â'r meddygon teulu yn sicrhau bod unrhyw awgrymiadau bod meddyginiaeth yn cael ei gordddefnyddio neu ei thanddefnyddio yn cael eu huwchgyfeirio i gael adolygiad meddygol. Fodd bynnag, oherwydd capasiti cyfyngedig presgripsiynwyr, nid oedd adolygiadau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n rheolaidd. Roedd y practis wedi dechrau ystyried opsiynau gwahanol ar gyfer datblygu

adolygiadau meddyginiaeth arferol a thrafodwyd y rhain yn ystod ein harolygiad.

Gwelsom fod ffurflenni presgripsiwn yn cael eu storio'n ddiogel a bod cofnod archwilio yn cael ei gadw. Llofnodwyd am bresgripsiynau pan fyddent yn cael eu casglu gan wasanaeth fferyllfa ac roedd staff y practis yn llofnodi pan fyddai cleifion yn casglu presgripsiynau eu hunain. Ystyrir bod hyn yn arfer canmoladwy. Fodd bynnag, roedd pob presgripsiwn yn cael ei gynhyrchu gan gyfrifiadur a gwnaethom holi a ddylai nifer bach o ffurflenni y gellid eu cwblhau â llaw fod ar gael yn y practis fel bod modd parhau i ddarparu gwasanaeth pe bai rhywbeth yn tarfu ar y system TG neu gyflenwad trydanol y safle.

Dywedwyd wrthym mai dim ond meddyginiaethau a gaiff eu presgripsiynu ar gyfer unigolion neu sydd eu hangen er mwyn rheoli argyfyngau meddygol oedd yn cael eu storio ar safle'r practis. Roedd atodlen ar waith i nodi pa gyffuriau a chyfarpar brys ddylai fod ar gael yn unol â chanllawiau Cyngor Adfywio'r DU. Roedd cofnodion yn cael eu cadw i gadarnhau bod yr eitemau brys a'u dyddiadau dod i ben yn cael eu harchwilio'n wythnosol. Fodd bynnag, gwelsom un strided profi cetonau yn y gwaed yr oedd ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio a masgiau a thiwbiau sbâr nad oedd dyddiad defnyddio wedi'i farcio arnynt. Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i'r practis er mwyn i'r eitemau gael eu symud o'r ardaloedd clinigol a darparu stoc addas arall yn eu lle ar ddiwrnod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

Roedd silindrau ocsigen ar gael ac yn addas i'w defnyddio. Cawsom wybod bod hyfforddiant a gwblhawyd gan staff perthnasol ynghylch defnyddio silindrau ocsigen wedi'i ymgorffori yn hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol ar-lein y bwrdd iechyd.

Dywedodd y staff clinigol wrthym eu bod wedi bod yn chwilio am ddull storio er mwyn sicrhau bod y silindrau ocsigen yn cael eu cadw'n ddiogel, ond bod ceisio caffael hyn drwy gyflenwyr y bwrdd iechyd yn heriol.

Dylai'r practis barhau i ystyried opsiynau ar gyfer cadw silindrau ocsigen yn ddiogel a chaffael opsiwn addas pan fydd un ar gael.

Nid oedd tymheredd amgylchynol yr ystafell yn cael ei fonitro yn yr ardal lle roedd cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu cadw er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn addas ar gyfer storio ocsigen, meddyginiaethau neu eitemau eraill sy'n sensitif i dymheredd nad ydynt yn cael eu cadw mewn oergell.

Dylai'r practis roi prosesau ar waith ar gyfer monitro tymheredd amgylchynol unrhyw ardaloedd lle cedwir nwyon meddygol, meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu cadw mewn oergell neu eitemau eraill sy'n sensitif i dymheredd.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu cadw ar y safle. Nododd yr ymarferwyr eu bod yn ymwybodol o'r mesurau diogelwch ychwanegol sydd eu hangen pe bai'r sefyllfa hon yn newid.

Gwelsom fod brechlynnau yn cael eu cadw yn yr oergell yn unol â'r canllawiau.

Ddwyaith y dydd, gwiriwyd a dogfennwyd tymheredd yr oergell a defnyddiwyd cofnodwyr data i gadarnhau bod tymereddau'r oergell yn aros o fewn yr ystod gywir neu byddai'n cael ei nodi'n gyflym pe bai'r tymheredd yn mynd yn rhy uchel neu'n rhy isel. Fodd bynnag, nid oedd siart lif cadwyn oer ar gael yn y polisi cadwyn oer ac ni welwyd hyn mewn ardaloedd clinigol er mwyn helpu'r staff i ddilyn y camau priodol pe bai'r gadwyn oer yn cael ei thorri.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi cadwyn oer i sicrhau ei fod yn cynnwys siart lif y gellir ei darllen yn gyflym a sicrhau bod y siart hon yn cael ei harddangos wrth ymyl yr oergelloedd brechlynnau i helpu'r staff i ddilyn y camau priodol pe bai'r gadwyn oer yn cael ei thorri.

Pe bai'r practis yn cael gwybod am unrhyw glaf a oedd wedi cael adwaith niweidiol i feddyginiaeth a bresgripsiynwyd, byddai hyn yn cael ei gofnodi drwy'r cynllun cerdyn melyn. Roedd poster yn cael ei arddangos yn yr ardal aros hefyd i godi ymwybyddiaeth cleifion o'r cynllun hwn at ddibenion hunan-adrodd.

Diogelu plant ac oedolion

Gwnaethom ystyried y gweithdrefnau diogelu sydd ar waith yn y practis. Roedd polisi diogelu clir ar gael. Roedd pob aelod o'r staff yn gwybod y dylid uwchgyfeirio unrhyw bryderon diogelu at arweinydd diogelu'r practis a benodwyd yn ddiweddar a'u bod hefyd yn gallu cysylltu â gwasanaethau perthnasol eraill i gael cyngor pe bai angen. Roedd prosesau ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth berthnasol am ddiogelu rhwng y practis a gwasanaethau gofal iechyd ehangach. Roedd posteri a oedd yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r practis yn atgoffa'r staff ac yn hysbysu'r cleifion o'r camau priodol i'w cymryd pe byddent yn nodi pryder diogelu yr oedd angen rhoi gwybod amdano.

Roedd prosesau addas ar waith ar gyfer dogfennu pryderon diogelu o fewn cofnodion cleifion ynghyd â'r defnydd o faneri digidol ar gyfer unigolion a chysylltiadau perthnasol. Roedd Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu codio. Fodd bynnag, nid oedd pryderon diogelu eraill wedi cael eu codio ers i'r cofnodion cleifion electronig gael eu mudo i'r system EMIS yn ddiweddar.

Dylai'r practis sicrhau bod pob pryder diogelu yn cael ei godio o fewn cofnodion cleifion yn unol â phecyn cymorth diogelu Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Dywedwyd wrthym fod cyfarpar untro yn cael ei ddefnyddio pryd bynnag y bo modd. Roedd dyfeisiau meddygol yn y practis yn lân a gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y rhain wedi cael eu calibradu. Fodd bynnag, roedd dyddiadau anghyson wedi'u nodi yn y ddogfennaeth hon ynghylch pryd y byddai angen calibradu'r cyfarpar nesaf, felly roedd angen gwirio hyn gyda'r contractwr.

Dylai'r practis gadarnhau bod y broses galibradu ddiwethaf a gwblhawyd ar y dyfeisiau meddygol yn ddilys o hyd a phryd y dylid eu calibradu nesaf.

Roedd yr ymarferwyr yn glir ynghylch y prosesau ar gyfer uwchgyfeirio unrhyw ddiffygion gyda dyfeisiau meddygol yn y practis. Penderfynwyd rhoi'r gorau i ddefnyddio un oergell yn ddiweddar oherwydd y nwyon yr oedd wedi bod yn eu hallyrru.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Gwelsom fod dull holistaidd ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ddarparu gofal clinigol yn sail i ymarfer effeithiol. Dywedodd clinigwyr wrthym eu bod yn ceisio bod yn ymwybodol o arferion gorau a chanllawiau clinigol cenedlaethol drwy ddarllen deunyddiau proffesiynol, cael diweddariadau gan y bwrdd iechyd a mynychu Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth gyda phractisau eraill. Dywedwyd wrthym, ar y cyfan, fod dull 'gwrando a dysgu' wedi'i fabwysiadu gan fod rhoi arferion arloesol ar waith yn heriol o fewn yr amgylchedd presennol, o ystyried y pwysau ar y gwasanaeth, y galw gan gleifion a'r ffaith mai dim ond un meddyg teulu sydd wedi'i gyflogi'n barhaol.

Roedd prosesau llif gwaith ac amser gwarchodedig ar waith er mwyn i feddyg teulu'r practis, gyda chefnogaeth staff gweinyddol, dderbyn gwybodaeth a chanlyniadau profion sy'n dod i mewn a gweithredu yn eu cylch. Fodd bynnag, er bod y rhain yn effeithiol yn ôl pob golwg, roedd yn llwyth gwaith trwm i'r meddyg teulu unigol ac nid oedd y trefniadau cyflenwi pe bai'r meddyg teulu parhaol yn absennol o'r practis yn gadarn. Nodwyd hefyd nad oedd gwybodaeth a oedd yn dod i law ynghylch gofal plant neu bresenoldeb cleifion yn yr adran achosion brys neu'r ysbyty yn cael ei phrosesu yn unol â pholisi'r practis.

Dylai'r practis adolygu ei drefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth a chanlyniadau profion a gweithredu yn eu cylch a sicrhau bod:

- **Cymorth a threfniadau cyflenwi addas ar waith ar gyfer meddyg teulu'r practis a'r llwyth gwaith**
- **Gweithdrefnau dilynol gyda phlant a chleifion eraill sydd wedi mynychu adrannau brys neu'r ysbyty yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn gyson.**

Roedd prosesau ac amserlenni addas ar waith ar gyfer cynhyrchu atgyfeiriadau brys ac arferol sy'n ofynnol ar gyfer gofal cleifion. Roedd pecyn i staff locwm a chymorth gweinyddol yn sicrhau bod staff locwm a oedd yn gweithio yn y practis yn gallu ymdrin ag atgyfeiriadau yn briodol.

Roedd cyfarfodydd gofal lliniarol gyda thimau cefnogol perthnasol wedi'u trefnu i gael eu cynnal yn rheolaidd. Byddai'r gwasanaeth Meddyg Teulu y Tu Allan i Oriau yn cael gwybod am unrhyw ddiweddariadau i statws cleifion Peidiwch â Dechrau Adfywio

Cardiopwlmonaidd (DNACPR) a byddai'n darparu gwybodaeth i'r practis pe bai claf yn marw y tu allan i oriau'r practis. Roedd llwybrau addas ar gyfer cadarnhau achos y farwolaeth drwy'r Gwasanaeth Archwilio Meddygol neu'r crwner ar waith hefyd. Roedd unrhyw achosion lle roedd cleifion yn marw'n annisgwyl yn cael eu hadolygu gan feddyg teulu'r practis.

Cofnodion cleifion

Roedd cofnodion cleifion electronig wedi cael eu mudo i raglen newydd yn ddiweddar yr oedd y practis yn parhau i ddysgu amdani drwy ei defnyddio. Roedd rhai cofnodion papur hanesyddol yn cael eu cadw ar y safle at ddibenion crynhoi. Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion electronig wyth claf a oedd yn cael eu cadw o fewn y system TG ddiogel.

Roedd cofnodion electronig yn cael eu cadw'n gyfredol drwy ychwanegu gwybodaeth newydd. Roedd y naratifau'n glir ar y cyfan ac yn darparu tystiolaeth dda o ymgynghoriadau a'r problemau a gyflwynwyd gan gleifion. Roedd canfyddiadau archwiliadau a chynlluniau triniaeth yn gynhwysfawr hefyd.

Gwelwyd peth tystiolaeth o gydsyniad ar lafar i archwiliadau a'r defnydd o hebryngwr. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau hefyd o archwiliadau personol yn cael eu cynnal heb ddogfennaeth yn dangos cydsyniad ar lafar i archwiliad neu ynghylch cynnig y defnydd o hebryngwr.

Dylai'r practis sicrhau bod cydsyniad a'r cynnig o hebryngwr yn cael eu cofnodi'n gyson yn nodiadau'r cleifion lle y bo'n berthnasol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Prin y byddai meddyginiaethau a bresgripsiynwyd yn cael eu cysylltu â phroblem feddygol a nodwyd. Wrth drafod, nodwyd nad oedd y cofnodion electronig yn gwneud hyn yn hawdd. Fodd bynnag, dylid darparu rhesymeg dros beidio â pharhau â meddyginiaethau.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl gofnodion cleifion yn cynnwys rhesymeg gynhwysfawr ynglŷn â pheidio â pharhau â meddyginiaethau.

Nid oedd problemau a gyflwynwyd a chlefydau cronig yn cael eu codio'n glir bob amser. Roedd hyn yn golygu y gallai mân broblemau guddio problemau mwy sylweddol neu gronig yng nghofnod y claf, gan ei gwneud hi'n anoddach i glinigwyr ddeall y darlun cyffredinol o iechyd y claf. Roedd ôl-groniad sylweddol o waith crynhoi hefyd yn golygu na fyddai cofnodion pob claf yn cynnwys gwybodaeth lawn am glefydau cronig a allai effeithio ar ofal cleifion pan fyddant yn ymgyflwyno, ac arwain at beidio â galw rhai cleifion yn ôl am adolygiadau rheoli clefydau cronig.

Dylai'r practis sicrhau'r canlynol:

- **bod adnodd ar gyfer crynhoi nodiadau yn cael ei nodi er mwyn lleihau'r ôl-groniad**
- **bod y dull o godio problemau yn cael ei adolygu, gan geisio cymorth ychwanegol gan bractis arall sydd eisoes wedi ymgorffori'r rhaglen newydd ar gyfer cofnodion cleifion electronig os yw ar gael.**

Gwelsom rywfaint o dystiolaeth bod dewis iaith cleifion yn cael ei gofnodi. Fodd bynnag, roedd hyn ar goll yn y mwyafrif o achosion.

Dylai'r practis sicrhau bod dewis iaith y cleifion yn cael ei gofnodi fel mater o drefn, er mwyn sicrhau y cynhelir ymgynghoriadau effeithiol yn eu dewis iaith.

Effeithlon

Effeithlon

Pan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd system newydd ar gyfer trefnu apwyntiadau wedi cael ei chyflwyno'n ddiweddar o drefnu ar y diwrnod yn unig i drefnu ymlaen llaw ar gyfer apwyntiadau nad ydynt yn frys. Gwelsom fod nifer da o apwyntiadau ar gael. Fodd bynnag, roedd yn rhy gynnar i wybodaeth fod ar gael ynghylch effaith hirdymor y newid hwn.

Nid oedd polisi ar waith ar gyfer Cleifion Na Wnaethant Fynychu eu Hapwyntiad. Byddai hyn yn fuddiol er mwyn lleihau'r apwyntiadau a gollir a chefnogi effeithlonrwydd y practis. Byddai cysylltu hyn â pholisïau Cleifion Na Ddaethpwyd â Nhw a Diogelu hefyd yn sicrhau y cynhelir cyswllt addas â chleifion agored i niwed.

Dylai'r practis ddatblygu polisi ar gyfer Cleifion Na Wnaethant Fynychu eu Hapwyntiad a'i roi ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Gan mai dim ond un ymateb a gafwyd i holiadur AGIC i staff, ni ellir ystyried bod y canfyddiadau yn cynrychioli gweithlu ehangach y practis.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn gadarnhaol ynglŷn â gweithio yn y practis a'r cymorth a ddarperir gan reolwyr y practis a'r bwrdd iechyd. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn deg, ond y gellid teimlo pwysau amser yn aml oherwydd prinder staff.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Ar adeg yr arolygiad, roedd y practis yn cael ei redeg gan y bwrdd iechyd. Roedd cynrychiolwyr o'r bwrdd iechyd i'w gweld drwy gydol y broses arolygu a dywedwyd wrthym mai nod y bwrdd iechyd oedd buddsoddi yn y practis fel y byddai'n barod ar gyfer unrhyw bartneriaeth newydd y cytunir arni drwy broses dendro dros y misoedd nesaf.

Gwelsom fod rheolwyr y practis a chynrychiolwyr y bwrdd iechyd yn darparu arweinyddiaeth weladwy a chadarnhaodd y staff eu bod yn teimlo y gallent drafod unrhyw bryderon â'r rheolwyr. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn glir ynglŷn â'u rolau. Dywedwyd wrthym, er gwaethaf llawer o newidiadau i'r practis dros y blynnyddoedd diwethaf, fod y staff wedi cael eu cefnogi'n gyson i weithio o fewn eu maes ymarfer a datblygu i agweddau ehangach ar eu rolau drwy hyfforddiant perthnasol a chymorth gan gymheiriaid. Roedd dyletswyddau arwain ar gyfer swyddogaethau penodol wedi cael eu dirprwyo'n briodol ar draws tîm y practis.

Gwelsom fod polisïau ar waith ar gyfer y practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddarau cynnwys llawer o'r rhain ac ychwanegu gwybodaeth rheoli fersiynau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r staff.

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisïau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu hadolygu o ran cynnwys a bod yr holl bolisïau'n cael eu hadolygu at ddibenion rheoli fersiynau.

Gwnaethom drafod y syniad y dylai'r practis ddefnyddio matrices neu adnodd arall i helpu i drefnu a chwblhau adolygiadau o bolisïau yn rheolaidd.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Gwelsom fod hyfforddiant ac arfarniadau'r staff wedi dechrau cael eu hadnewyddu'n ddiweddar. Roedd prosesau ar gyfer sicrhau bod diweddariadau rheolaidd yn cael eu cwblhau'n barhaus yn cael eu hymgorffori. Cadarnhaodd practis cyfaill y byddai'n rhannu ei dempled a'i broses ar gyfer datganiadau blynnyddol o gymeriad da staff er mwyn mabwysiadu'r trefniant hwn.

Roedd polisi recriwtio yn amlinellu'r gofynion o ran gwiriadau cyn cyflogi a rhaglen sefydlu ar gyfer staff newydd ar waith. Dywedwyd wrthym fod y cymysgedd sgiliau yn cael ei adolygu'n rheolaidd yn y practis a bod staff locwm a staff banc yn cael eu cyflogi er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau yn unol ag anghenion y boblogaeth leol.

Roedd amrywiaeth o gymorth llesiant yn cael ei hyrwyddo i'r staff a gallent fanteisio arno pe bai angen. Hefyd, dywedwyd wrthym y byddai sesiynau adborth a thrafodaethau un-i-un ac fel tîm yn cynnig cyfleoedd i ddadfrifio a darparu cymorth yn

dilyn digwyddiadau neu gwynion.

Roedd diweddariadau cyffredinol i'r staff yn cael eu rhannu drwy e-bost a thrwy drafodaethau wyneb yn wyneb a chadarnhaodd y staff a'r rheolwyr fod y sianeli cyfathrebu hyn yn gweithio'n dda.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Gwnaethom edrych ar drefniadau'r practis ar gyfer adborth a chwynion, ynghyd â chofnodion o'r modd yr ymdriniwyd â chwynion cleifion yn ddiweddar. Nodwyd bod nifer uchel o gwynion yn peri risg i'r practis ac, o ganlyniad, datblygwyd polisi yn nodi sut y gallai systemau leihau nifer y cwynion a geir.

Gwelsom fod blwch awgrymiadau ar gael ar y safle i gleifion. Roedd poster 'Dywedoch chi, gwnaethom ni' yn cael ei arddangos yn yr ardal aros i gleifion ac roedd canlyniadau'r arolwg cleifion diweddaraf wedi cael eu hargraffu i'r cleifion allu eu gweld yn y dderbynfa hefyd.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn rhoi gwybod i gleifion sut y gallent godi pryder neu gŵyn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen diweddarau'r wybodaeth hon yn unol â phroses Gwrando ar Bobl a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2026.

Dylai'r practis sicrhau ei fod yn datblygu ei weithdrefnau i gleifion godi pryderon neu gwynion yn unol â phroses Gwrando ar Bobl (2026).

Roedd cofnodion o gyfathrebu â chleifion ynghylch yr ymchwiliadau i bryderon a chwynion a godwyd ganddynt a thaenlen yn darparu tystiolaeth o gamau i ymdrin â chwynion yn y practis. Roedd y daenlen yn ysgogi'r rheolwr cwynion penodedig i ystyried a ddylid sbarduno'r Ddyletswydd Gonestrwydd mewn perthynas â phob pryder a chŵyn a godwyd ac yn golygu bod modd nodi themâu ar gyfer datblygu ymarfer yn hawdd ar gyfer adroddiad chwarterol a oedd yn cael ei rannu â thîm y practis. Gwnaethom nodi hefyd fod amserlenni ar gyfer darparu ymateb i gleifion gan y practis wedi gwella ers dechrau 2026.

Roedd angen adolygu'r polisi chwythu'r chwiban a oedd ar waith yn y practis er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth gywir am bwy y dylai'r staff gysylltu ag ef pe bai ganddynt bryder roeddent yn dymuno rhoi gwybod amdano'n ffurfiol mewn perthynas â'r gweithle.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi chwythu'r chwiban er mwyn sicrhau ei fod yn cyfeirio staff yn glir at gysylltiadau perthnasol pe bai ganddynt bryder roeddent yn dymuno rhoi gwybod amdano'n ffurfiol mewn perthynas â'r gweithle.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd prosesau diogelu data addas a Swyddog Diogelu Data penodedig ar waith. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r practis oruchwyllo'r trefniadau diogelu data a llywodraethu gwybodaeth a sicrhau bod unrhyw ymholiadau'n cael eu trin yn briodol o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd archwiliadau llywodraethu gwybodaeth ad hoc wedi dechrau i nodi meysydd i ddatblygu'r practis ymhellach. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru polisi llywodraethu gwybodaeth y practis er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwybodaeth gywir am gysylltiadau allweddol ar gyfer diogelu data a llywodraethu gwybodaeth.

Dylai'r practis adolygu ei bolisi llywodraethu gwybodaeth i sicrhau ei fod yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gysylltiadau perthnasol ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a diogelu data o fewn y practis.

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod rhaglen archwilio clinigol a mewnlol systematig ar waith i fonitro ansawdd, er enghraifft, prosiectau gwella ansawdd o ran Clefyd Cronig yn yr Arennau, Clefyd Cardiofasgwlaidd a Pharhad Gofal.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom un strided profi cetonau yr oedd ei ddyddiad defnyddio wedi mynd heibio a masgiau a thiwbiau sbâr nad oedd dyddiad defnyddio wedi'i farcio arnynt ymhlith y cyfarpar brys.	Posibilrwydd o ddarlleniadau ffug o ganlyniad i ddefnyddio'r strided profi cetonau. Gallai defnyddio masgiau a thiwbiau gyda dyddiad defnyddio anhysbys beri risg i ddiogelwch cleifion o ganlyniad i halogiad o gyfarpar anaddas.	Trafodwyd y cyfarpar a nodwyd a'i ddangos i gynrychiolydd nyrsio'r practis.	Tynnwyd yr eitemau a nodwyd o stoc y cyfarpar brys a darparwyd eitemau eraill, a oedd yn gyfredol, i'w defnyddio. Gwnaethom drafod y syniad o ddychwelyd unrhyw eitemau a gafwyd heb ddyddiadau defnyddio i gyflenwyr a gofyn am rai newydd yn eu lle er mwyn sicrhau bod eitemau sydd ar gael i'w defnyddio yn y practis yn parhau i fod yn addas.

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Gelligaer

Dyddiad yr arolygiad: 07 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau

Ni nodwyd unrhyw faterion lle mae angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Gelligaer

Dyddiad yr arolygiad: 07 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
-----------------------	----------------------------	------------------	-----------------------------------	------------------	----------

1.	Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hybu iechyd yn hen ac nid oedd taflenni'n cael eu cadw'n drefnus. Nid oedd gwybodaeth yn cael ei harddangos am wasanaeth GIG 111, pwyso 2 ar gyfer cymorth iechyd meddwl 'chwaith.	Dylai'r practis sicrhau'r canlynol: • Bod system addas yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer arddangos taflenni gwybodaeth neu wneud yn siŵr bod taflenni'n aros mewn pentwr diogel • Bod y wybodaeth sy'n cael ei harddangos yn gyfredol • Bod gwybodaeth am wasanaeth cymorth iechyd meddwl GIG 111, pwyso 2 ar gael i gleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn / Diogel	- Gosodwyd hambyrddau ar gyfer taflenni yn y dderbynfa - Rhan o rôl staff y dderbynfa yw cadarnhau bod y taflenni'n gyfredol – caiff hyn ei adolygu'n fisol - Mae taflenni am wasanaeth GIG 111, pwyso 2 yn cael eu harddangos mewn man amlwg	Tîm y Practis	Rhoddwyd ar waith yr wythnos sy'n dechrau 18.05.26
----	--	---	--	---	----------------------	---

2.	Nid yw'r staff anghlinigol y gall fod yn ofynnol iddynt ymgymryd â rôl hebryngwr wedi cwblhau hyfforddiant ffurfiol perthnasol.	Rhaid i bob aelod o'r staff sy'n gweithredu fel hebryngwyr ymgymryd â'r hyfforddiant priodol yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn / Diogel	- Mae'r broses wedi cael ei diweddarau – dim ond staff clinigol sy'n gweithredu fel hebryngwyr, a bydd ail glinigydd ar y safle bob amser	Tîm Nyrsio	Rhoddwyd ar waith yr wythnos sy'n dechrau 18.05.26
3.	Roedd angen adolygu'r polisi rheoli apwyntiadau er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig fanwl i gefnogi'r staff anghlinigol yn eu rôl llywio gofal a darparu opsiynau addas o ran llwybr na fyddent yn oedi gofal brys i gleifion.	Caiff y wybodaeth ysgrifenedig sy'n sail i lywio gofal ei hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn darparu cyfeiriad clir i staff anghlinigol ac yn darparu opsiynau addas o ran llwybr na fyddant yn oedi gofal cleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Amserol	- Mae'r polisi'n cael ei adolygu a bwriedir cymeradwyo'r polisi diwygiedig erbyn 31 Gorffennaf 2026	Rheolwr y Practis	31.07.26

4.	Roedd poster mynediad at ofal yn rhoi gwybod i gleifion y gallent drefnu apwyntiadau a rheoli presgripsiynau drwy'r GIG. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ymwybodol bod y practis yn cynnig y dull hwn o drefnu apwyntiadau.	Dylai'r practis gadarnhau ei ddulliau ar gyfer trefnu apwyntiadau a sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â'r polisiâu mynediad a deunyddiau i gleifion.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn / Effeithiol	- Rhan o rôl staff y dderbynfa yw cadarnhau bod y taflenni'n gyfredol ac yn berthnasol – caiff hyn ei adolygu'n fisol - Caiff gohebiaeth ei hadolygu - Cyfathrebiadau â'r staff wedi'u diweddarau	Tîm y Practis	Wythnos sy'n dechrau 18.05.26
5.	Nid oes unrhyw wybodaeth ar gael ynghylch addasiadau rhesymol i gefnogi dulliau cyfathrebu â chleifion.	Caiff addasiadau rhesymol ar gyfer cyfathrebu eu hyrwyddo fel y gall cleifion eu defnyddio os bydd angen.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	- Defnyddir Language Line a Typetalk yn ôl yr angen - Rhannwyd nodyn atgoffa â phob aelod o'r staff - Caiff gwybodaeth ei chadw yn yr hambwrdd taflenni hybu iechyd yn y dderbynfa hefyd	Rheolwr y Practis	Wythnos sy'n dechrau 13.07.26

6.	Nid oes llawer o dystiolaeth bod y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg yn cael ei weithredu.	Dylai'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg gael ei ymgorffori'n llawn yn y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	- Caiff cyfleoedd hyfforddiant Cymraeg i'r staff eu hadolygu - Mae gwybodaeth am y cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ar gael yn yr hambwrdd taflenni hybu iechyd	Tîm y Practis	30.09.26
7.	Nodwyd rhai peryglon llithro a baglu ar safle'r practis.	Caiff pob rhan o'r practis ei chadw'n dactylus, heb unrhyw annibendod a allai beri perygl llithro, baglu neu berygl arall.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Cwblhawyd adolygiad o'r ffordd y caiff bagiau tywod eu storio a chafwyd gwared ar beryglon	Tîm y Practis	Wythnos sy'n dechrau 11.05.26

8.	Nid oedd arwyddion ynghylch peryglon neu fesurau rheoli yn y practis wedi'u gosod mewn mannau perthnasol ac nid oedd rhai yn cynnwys digon o fanylion i gefnogi diogelwch yn effeithiol.	Dylai'r practis adolygu'r holl arwyddion y bwriedir iddynt godi ymwybyddiaeth o unrhyw beryglon neu fesurau rheoli yn y practis er mwyn sicrhau bod y rhain wedi'u lleoli'n briodol ac yn darparu gwybodaeth glir a chyson.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Adolygwyd yr arwyddion ar y diwrnod a'u diweddarau er mwyn sicrhau eu bod yn eglur i staff craidd a staff locwm	Tîm Nyrsio	07.05.26
9.	Roedd sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r diffoddwyr tân gael eu gwasanaethu ddiwethaf. Nid oedd rhai cardiau gweithredu pe bai tân wedi'u cwblhau i roi gwybod i gleifion beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer gwagio'r adeilad pe bai tân. Rydym newydd ddechrau cynnal asesiadau risg misol.	Dylai'r practis, ar y cyd â'r bwrdd iechyd, barhau i sicrhau bod unrhyw asesiadau risg tân a mesurau diogelwch tân yn cael eu hymgorffori mewn modd amserol, yn ôl eu lefel o risg.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Wedi trefnu a'r gwaith gwasanaethu wedi'i gwblhau	Pennaeth y Gwasanaeth	Cynhaliwyd gwaith i wasanaethu'r diffoddwyr tân a'r synwryddion ar 13 Mai 2026

10	Nid oedd y Cynllun Parhad Busnes yn adlewyrchu sefyllfa bresennol y practis lle nad oedd unrhyw bartneriaid yn y practis.	Dylid adolygu'r Cynllun Parhad Busnes i sicrhau ei fod yn berthnasol i sefyllfa bresennol y practis.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Effeithiol	- Mae'r Cynllun Parhad Busnes wrthi'n cael ei adolygu, i'w ddiweddaru erbyn 31 Gorffennaf 2026	Tîm y Practis	31.08.26
11	Ni nodwyd unrhyw drefniant cyflenwi hirdymor ar gyfer derbyn a dosbarthu gwybodaeth o fewn y practis yn absenoldeb rheolwr y practis.	Angen nodi trefniadau cyflenwi hirdymor.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Mae proses ar waith i Arweinydd y Tîm ddosbarthu yn absenoldeb rheolwr y practis	Rheolwr y Practis ac Arweinydd y Tîm	Eisoes ar waith
12	Nid oedd polisi'r practis ar ymweliadau cartref yn arwain asesiadau risg ymarferwyr mewn perthynas ag ymweliadau.	Dylid adolygu ac ymgorffori'r polisi ymweliadau cartref.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	- Mae'r adolygiad o'r polisi yn mynd rhagddo, i'w gwblhau erbyn 30 Medi 2026	Rheolwr y Practis a'r Meddyg Teulu Cyflogedig	30.09.26

13	Nid oedd polisi Atal a Rheoli Heintiau'r practis yn cynnwys digon o fanylion i helpu'r staff i roi gofynion atal a rheoli heintiau ar waith ac nid oedd yn nodi'n gywir pwy yw'r arweinydd atal a rheoli heintiau.	Dylid adolygu'r polisi atal a rheoli heintiau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	- Enwyd nyrs barhaol yn arweinydd y polisi - Mae pob aelod o'r tîm nyrsio wedi cwblhau hyfforddiant AITT - Caiff y polisi ei ddiweddarau erbyn 15 Medi 2026	Tîm Nyrsio	15.09.26
14	Roedd polisi'r practis ar gyfer feirysau a gludir yn y gwaed i fod i gael ei adolygu.	Dylid adolygu'r polisi ar feirysau a gludir yn y gwaed i sicrhau ei fod yn gyfredol a'i fod yn parhau i ddarparu arweiniad perthnasol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	- Mae'r gwaith o adolygu'r polisi a datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol yn mynd rhagddo, gan gynnwys ymgorffori matrices polisïau. I'w gwblhau a'i weithredu erbyn 15 Medi 2026.	Tîm Nyrsio	15.09.26

15	Nid oedd disgrifiad swydd glanhawr y practis yn cynnwys cadw cofnodion ac nid oedd unrhyw amserlenni glanhau wedi cael eu cwblhau ar gyfer ardaloedd heblaw'r toiledau.	• Dylid adolygu disgrifiad swydd glanhawr y practis i sicrhau ei fod yn cwmpasu pob agwedd ddisgwyliedig ar y rôl. • Dylid cwblhau amserlenni glanhau i gadarnhau pa waith glanhau a wnaed ym mhob ardal.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	- Mae'r disgrifiad swydd wedi cael ei adolygu - Mae'r amserlenni glanhau wedi cael eu hadolygu a'u diweddarau a'u harchifo at ddibenion cadw cofnodion	Rheolwr y Practis	31.07.26
----	---	--	---	---	-------------------	----------

16	Nid oedd pennau mopiau sydd eu hangen i lanhau'r practis yn effeithiol ar gael neu nid oeddent yn addas at y diben. Nid oedd y bwcedi mop yn cael eu storio'n addas.	• Dylai mopiau fod ar gael, cael eu cynnal a'u cadw a'u newid am rai newydd yn unol â'r canllawiau perthnasol ar atal a rheoli heintiau er mwyn atal croes-halogi • Dylid storio'r bwcedi mop ar wahân a pheidio â'u pentyrru, a sicrhau eu bod yn cael eu cadw oddi ar y llawr a/neu ben i waered pan na fyddant yn cael eu defnyddio.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Eisoedd wedi'u harchebu ac yn eu defnyddio - Mae'r bwcedi mop bellach yn cael eu cadw ben i waered pan na fyddant yn cael eu defnyddio	Pennaeth y Gwasanaeth	09.05.26
----	---	--	---	---	------------------------------	-----------------

17	Roedd arwyddion a arddangoswyd yn y practis i roi gwybod i gleifion sut roedd presgripsiynau rheolaidd yn cael eu prosesu a'u darparu yn cynnwys gwybodaeth anghyson ynghylch y prosesau a'r amserlenni hyn.	Dylai'r holl wybodaeth a ddarperir i gleifion ynghylch y prosesau a'r amserlenni ar gyfer gofyn am bresgripsiynau rheolaidd a'u derbyn fod yn gyson.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	- Adolygwyd a diwygiwyd ar 9 Mai 2026	Clercod Presgripsiynau	09.05.26
18	Nid oedd y silindrau ocsigen yn cael eu cadw'n ddiogel.	Dylid parhau i chwilio am ddull storio addas a'i gaffael pan fydd ar gael.	Safonau Ansawdd lechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Mae'r dull storio wedi cael ei archebu, roedd oedi o ran argaeledd ac rydym wedi holi am yr archeb.	Pennaeth y Gwasanaeth	30.09.26

19	Nid oedd tymheredd amgylchynol yr ystafell yn cael ei fonitro yn yr ardal lle roedd cyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu cadw er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd yn parhau i fod yn addas ar gyfer storio ocsigen, meddyginiaethau neu eitemau eraill sy'n sensitif i dymheredd nad ydynt yn cael eu cadw mewn oergell.	Dylid rhoi prosesau ar waith ar gyfer monitro tymheredd amgylchynol unrhyw ardaloedd lle cedwir nwyon meddygol, meddyginiaethau nad ydynt yn cael eu cadw mewn oergell neu eitemau eraill sy'n sensitif i dymheredd.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Archebwyd thermomedr ar gyfer yr ystafell ar 13 Gorffennaf 2026 i'w ddanfôn ar frys - Mae gwiriadau rheolaidd ar waith	Tîm Nyrsio	31.07.26
----	--	---	---	---	-------------------	-----------------

20	Nid oedd y polisi cadwyn oer yn cynnwys siart lif cadwyn oer ac nid oedd un wedi'i harddangos ger yr oergelloedd brechiadau.	- Dylai'r practis adolygu ei bolisi cadwyn oer er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys siart lif - Sicrhau bod y siart lif yn cael ei harddangos ger yr oergelloedd brechiadau fel bod modd i'r staff gyfeirio ati'n hawdd os bydd y gadwyn oer yn cael ei thorri.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	Wedi'i harddangos ac i'w gweld ym mhob ystafell	Tîm Nyrsio	07.05.26
21	Nid oedd pryderon diogelu wedi cael eu codio o fewn y cofnodion cleifion electronig ers iddynt gael eu mudo i'r system EMIS yn ddiweddar.	Dylid codio pob pryder diogelu o fewn cofnodion cleifion yn unol â phecyn cymorth diogelu Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Cydnabuwyd hyn ac mae mesurau ar waith i weithredu yn hyn o beth wrth symud ymlaen er mwyn cydymffurfio â phrosesau codio Snomed	Meddyg Teulu Cyflogedig	Parhaus

22	Roedd dyddiadau anghyson wedi'u nodi yn y ddogfennaeth galibradu ynghylch pryd y byddai angen calibradu'r cyfarpar nesaf.	Dylid cadarnhau gyda'r contractwr fod y broses galibradu ddiwethaf a gwblhawyd ar y dyfeisiau meddygol yn ddilys o hyd a phryd y dylid eu calibradu nesaf.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	Mae'r broses galibradu ar waith ac yn gyfredol	Rheolwr y Practis/Rheolwr Gweithrediadau	08.07.26
----	---	--	--	--	--	----------

23	Dim ond un meddyg teulu parhaol a gyflogir gan y practis a oedd yn ganolog i dderbyn gwybodaeth glinigol gan wasanaethau eraill a chanlyniadau profion a gweithredu yn eu cylch. Roedd hyn yn arwain at lwyth gwaith trwm ac nid oedd y trefniadau cyflenwi yn gadarn. Nid oedd gweithdrefnau dilynol gyda phlant a oedd wedi mynychu gwasanaethau eraill a chleifion a oedd wedi mynychu adrannau brys neu'r ysbyty yn cael eu rhoi ar waith yn gyson chwaith.	Dylai'r practis adolygu ei drefniadau ar gyfer derbyn gwybodaeth a chanlyniadau profion a gweithredu yn eu cylch a sicrhau bod: • Cymorth a threfniadau cyflenwi addas ar waith ar gyfer meddyg teulu'r practis a'r llwyth gwaith • Gweithdrefnau dilynol gyda phlant a chleifion eraill sydd wedi mynychu adrannau brys neu'r ysbyty yn cael eu hadolygu a'u rhoi ar waith yn gyson.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel	- Mae proses eisoes ar waith i'r meddyg teulu sydd ar alwad ar y diwrnod weithredu - Ni chodwyd yr elfen hon gyda'r tîm ar y diwrnod i drafod y broses	Rheolwr y Practis / Rheolwr Gweithrediadau	07.07.26
----	--	---	---	---	---	-----------------

24	Nodwyd y materion canlynol mewn perthynas â chofnodion rhai cleifion: - Gwelwyd enghreifftiau o archwiliadau personol yn cael eu cynnal heb ddogfennaeth yn dangos cydsyniad ar lafar i archwiliad neu ynghylch cynnig y defnydd o hebryngwr - Ni ddarparwyd rhesymeg dros beidio â pharhau â meddyginiaethau - Ôl-groniad sylweddol o waith crynhoi - Problemau gyda	Rhaid i gofnodion pob claf gael eu cadw yn unol â chanllawiau'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol / Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	- Adolygwyd ac anfonwyd gwybodaeth at y meddygon teulu - Mae'r nifer mawr o staff locwm a phrinder meddygon teulu cyflogedig yn peri her. Mae'r pecyn i staff locwm wedi cael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn sicrhau bod y broses yn cael ei rhannu â staff locwm.	Rheolwr Gweithrediadau/Meddygon Teulu Cyflogedig	Parhaus
----	---	--	--	---	--	---------

	chodio • Nid oedd dewis iaith yn cael ei gofnodi fel mater o drefn.					
--	--	--	--	--	--	--

25	Nid oedd polisi ar gyfer Cleifion Na Wnaethant Fynychu eu Hapwyntiad ar waith er mwyn lleihau nifer yr apwyntiadau a gollir a sicrhau y cynhelir cyswllt addas â chleifion agored i niwed.	Dylai'r practis ddatblygu polisi ar gyfer Cleifion Na Wnaethant Fynychu eu Hapwyntiad a'i roi ar waith.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithlon	- Mae polisi ar gyfer Cleifion Na Wnaethant Fynychu eu Hapwyntiad ar waith yn y practis - Mae'r practis hefyd yn cysylltu ag asiantaethau partner os na ellir cael gafael ar glaf yn y gymuned – rhoddwyd enghraifft gan yr arolygwyr ar ddiwrnod yr arolygiad lle nad oedd gyrrwr y fferyllfa gymunedol yn gallu cael gafael ar glaf ac aeth tîm y practis i'r cyfeiriad i gefnogi'r claf	Tîm y Practis	Ar waith
----	--	---	---	---	---------------	----------

26	Roedd angen diweddaru cynnwys llawer o bolisiâu a diweddaru'r wybodaeth rheoli fersiynau er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i'r staff.	Dylai'r practis sicrhau bod yr holl bolisiâu y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn cael eu hadolygu o ran cynnwys a bod yr holl bolisiâu'n cael eu hadolygu at ddibenion rheoli fersiynau.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	- Mae'r gwaith o adolygu'r polisi a datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol yn mynd rhagddo, gan gynnwys ymgorffori matrices polisiâu. I'w gwblhau a'i weithredu erbyn 15 Medi 2026.	Hyfforddai Graddedig gyda chefnogaeth Pennaeth y Gwasanaeth	15.09.26
27	Roedd angen diweddaru'r polisi a'r gweithdrefnau cwyno yn unol â phroses Gwrando ar Bobl a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2026.	Dylai'r practis sicrhau ei fod yn datblygu ei weithdrefnau i gleifion godi pryderon neu gwynion yn unol â phroses Gwrando ar Bobl (2026).	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn	- Mae'r polisi wedi cael ei adolygu a'i ddiweddaru. Trafodwyd amserlenni â'r aseswyr ar y diwrnod. - Hefyd, mae taflenni 'Gwrando ar Bobl' bellach ar gael i gleifion yn yr hambwrdd hybu iechyd yn y dderbynfa	Rheolwr y Practis / Rheolwr Gweithrediadau	9 Mai 2026

28	Roedd angen adolygu polisïau chwythu'r chwiban a llywodraethu gwybodaeth er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys gwybodaeth gywir ynglŷn â chysylltiadau allweddol mewn perthynas â'r swyddogaethau hyn.	Dylid adolygu polisïau chwythu'r chwiban a llywodraethu gwybodaeth.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal (2023) – Diogel / Effeithiol	- Mae'r gwaith o adolygu'r polisi a datblygu Gweithdrefn Weithredu Safonol yn mynd rhagddo, gan gynnwys ymgorffori matrices polisïau. I'w adolygu a'i roi ar waith erbyn 15 Medi 2026	Rheolwr y Practis / Rheolwr Gweithrediadau	15 Medi 2026
----	--	---	---	---	--	--------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth: **Pennaeth y Gwasanaeth**

Enw (priflythrennau): **Rebecca Pearce**

Swydd: Pennaeth y Gwasanaeth **Dyddiad: 13.07.26**